Cynulliad Cenedlaethol Cymru

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO

Y MESUR PLANT A MABWYSIADU

1. Ystyriodd y Pwyllgor y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 20 Hydref 2005. Cafodd yr eitem ei chynnwys yng nghylch gwaith y Pwyllgor yn dilyn y ddadl yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 21 Mehefin 2005.

2. Rhennir y Mesur yn ddwy ran: mae'r cyntaf yn delio â mesurau sy'n ymwenud â chyswllt â phlant ac mae'r ail yn delio â'r pwerau i osod cyfyngiadau ar y broses o fabwysiadu o wledydd penodol. Mae rhan 1 y Mesur o fewn cylch gwaith y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

3. Ni chafwyd unrhyw gynigion ar gyfer diwygio'r rheoliadau ond roedd yr Aelodau am gefnogi'r diwygiadau diweddar a gynigiwyd gan yr NSPCC a Chymorth i Fenywod o ran Cyswllt â Phlant. Mae'r cynigion hyn yn ymwneud â'r pryderon a godwyd ynglŷn â bylchau yn y ddeddfwriaeth a'r ffaith bod llysoedd yn gwneud gorchymynion cyswllt amhriodol weithiau lle y gallai fod problemau o ran cam-drin yn y cartref. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog Gwladol dros Blant a Theuluoedd yn nodi'r pryderon hyn.

Janice Gregory AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio